

# Dechrau Syndicet

# Pam syndicet?

Gall syndicet fod yn ffordd wych o chwarae'r loteri a chefnogi eich cymuned leol. Mae'n cynnig:

- Mwy o gyfleoedd i ennill
- Prynu tocynnau gyda ffrindiau a chydweithwyr
- Chwarae'r loteri fel tîm, busnes neu adran

# Canllaw cam wrth gam

1. Dewis rheolwr syndicet
2. Mae pawb yn llofnodi cytundeb y syndicet (mae cytundeb gwag wedi'i gynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon)
3. Mae rheolwr y syndicet yn cofrestru ar gyfer y tocynnau gan gasglu arian gan aelodau'r syndicet fel/pan mae'n briodol
4. A dyna ni. Rydych chi bellach yn chwarae'n ddiogel fel syndicet

# Rheolwr y syndicet

Mae rheolwr y syndicet yn gyfrifol am y canlynol:

1. Bod yn berchen ar y cyfrif sy'n prynu'r tocynnau
2. Casglu arian gan aelodau'r syndicet
3. Sicrhau bod Cytundeb y Syndicet wedi'i ddiweddaru bob amser
4. Rhoi gwybod i'r syndicet os/pan fydd yn ennill

# Cyngor am arfer gorau

- Os oes gennych chi fwy nag 20 o gyfranogwyr/tocynnau yn ofynnol yn eich syndicet, rydym yn argymell eich bod yn defnyddio'r opsiwn talu untro am gyfnod penodol oherwydd gallwch brynu mewn swmp o hyd at 20 yn erbyn eich cyfrif a mynd drwy'r broses brynu gymaint o weithiau â sy'n ofynnol. *(Efallai y byddwn yn cysylltu â chi er budd diogelwch/gamblo i sicrhau eich bod yn hapus gyda'ch pryniant – dim byd i boeni amdano, dim ond diwydrwydd dyladwy ar ein rhan ni).*
- Os byddwch yn talu drwy Ddebyd Uniongyrchol misol bydd angen i chi aros tua 10 diwrnod gwaith i'r taliad glirio cyn i docynnau gael eu cynnwys i'w tynnu. Os ydych chi eisiau sefydlu cynllun misol, efallai y bydd defnyddio cerdyn debyd dros ar ôl tro

yn ddewis gwell, rhag i chi orfod aros i docynnau gael eu cynnwys/taliadau i glirio. Dim ond os ydych chi eisiau 20 tocyn neu lai y bydd hyn yn bosib.

- Dim ond un cynllun talu y gallwch ei gael ar unrhyw un cyfrif. Os byddwch yn sefydlu cynllun talu misol ac yn dymuno ychwanegu/tynnu tocynnau, ni fydd y newidiadau a wnewch yn dod i rym tan y dyddiad talu llwyddiannus nesaf.

- Os byddwch yn dewis prynu tocynnau fel taliad untro gallwch brynu 1 mis (5 wythnos), 3 mis (13 wythnos), 6 mis (25 wythnos), neu flwyddyn (52 wythnos). Er enghraifft, efallai yr hoffech brynu 20 tocyn am fis gan wneud taliad untro o £100 am 5 wythnos o dynnu rhifau. Pan fydd tocynnau naill ai'n ennill neu'n barod i gael eu hadnewyddu, bydd perchennog y cyfrif yn derbyn e-bost i roi gwybod am hyn a gweithredu.

- Wrth ddewis rhifau tocynnau, dewiswch 'dewiswch i mi'. Byddwch yn derbyn e-bost Cadarnhau Prynu Tocynnau sy'n rhestru'r holl rifau tocynnau rydych wedi'u cael. Gallwch ei argraffu a'i ddefnyddio i ddirprwyo rhifau i bob aelod o'r tîm, os yw hyn yn rhan o'ch proses. Atodwch ef hefyd gyda'ch cytundeb am dryloywder. Os ydych chi eisiau newid y rhifau a ddewiswyd gallwch wneud hynny drwy fewngofnodi i'ch cyfrif. Rhaid gwneud unrhyw newidiadau cyn 11.59pm ar y nos Wener cyn i'r rhifau gael eu tynnu ar y nos Sadwrn.

- Weithiau efallai y bydd rhifau arbennig yn cael eu tynnu. Os byddwch yn ennill, chi sydd i ddewis sut byddwch yn dyfarnu'r wobr. Bydd yn cael ei hennill yn erbyn rhif tocyn penodol yn eich syndicet. Dylai hyn fod yn rhan o gytundeb eich syndicet. Naill ai bydd y person sy'n dal y rhif yn ennill neu byddwch yn tynnu'r rhif eto eich hun ar gyfer y wobr hon, ar wahân ac yn ychwanegol.

- Canslo/dileu/lleihau tocynnau – Gallwch ddod â chynllun taliad cerdyn misol i ben drwy fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein a mynd i 'Eich Cyfrif', 'Eich Tocynnau' ac wedyn 'Canslo' ac wedyn 'dewis' pob tocyn rydych yn dymuno eu dileu a chlicio ar dileu ar y gwaelod. Os byddwch yn dewis yr holl docynnau, bydd hyn wedyn yn dod â'ch cynllun talu i ben gyda ni ac ni fydd rhagor o arian yn cael ei gymryd. **Os ydych yn talu drwy Ddebyd Uniongyrchol, bydd angen i chi sicrhau bod hyn wedi'i wneud dri diwrnod gwaith cyn eich dyddiad talu, neu fel arall rydym yn eich cynghori i ganslo eich Debyd Uniongyrchol gyda'ch banc*

## Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau eraill neu os oes arnoch chi angen help ar-lein, ffoniwch ni ar 01492 483015

Mae syndicet yn gytundeb allanol rhwng y tîm a rheolwr y syndicet ac fe welwch chi ddogfen gyfreithiol ategol ar y dudalen nesaf i chi ei defnyddio i reoli eich syndicet os ydych yn dymuno.  Tynnir y rhifau am 8pm bob nos Sadwrn a rhoddir y canlyniadau ar wefan y loteri ar ôl yr amser hwn.

# CYTUNDEB SYNDICET

Enw’r Syndicet

Rheolwr y Syndicet

Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen

| Chwaraewyr (gan gynnwys enw a chyfeiriad) | Cyfraniad ym mhob gêm | Cyfran o’r enillion | Llofnod a dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## TREFNIADAU ARBENNIG

Mae'n well cofnodi unrhyw drefniadau penodol y mae eich syndicet wedi cytuno arnynt ac y byddant yn cadw atynt. Atodwch dudalennau ychwanegol os oes angen. Trefniadau enghreifftiol i'w hystyried; beth os bydd rhywun yn methu talu? Beth sy'n digwydd pan fydd rhywun yn gadael y syndicet?

Llofnod tyst | Dyddiad

Enw’r tyst | Galwedigaeth

Cyfeiriad